Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE
## Adroddiad Monitro

20 Tachwedd 2020



Y Senedd a BREXIT

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **lucy.valsamidis@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Negodiadau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE
## Adroddiad Monitro

20 Tachwedd 2020

**Awduron:**
Lucy Valsamidis, Sara Moran a Rhun Davies

Y Senedd a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

1.1 Crynodeb o'r datblygiadau ........ 1

**2. Datblygiadau'r DU-UE ........ 3**

2.1 Cytuno ar drefniadau negodi newydd ........ 3

2.2 Prif Negodwyr: datganiadau diweddaraf ........ 3

2.3 Cyfarfodydd rhwng y Prif Weinidog a Llywydd Comisiwn yr UE ........ 4

2.4 Senedd Ewrop: datganiadau diweddaraf ........ 5

2. 5. 2020: dyddiadau allweddol sy'n weddill ........ 6

2. 6. Gweithredu'r Cytundeb Ymadael ........ 6

**3. Datblygiadau ar lefel y DU ........ 8**

3. 1. Bil Marchnad Fewnol y DU ........ 8

3. 2. Fframweithiau Cyffredin ........ 8

3. 3. Cysylltiadau rhynglywodraethol ........ 9

3. 4. Parodrwydd ........ 9

3. 5. Deddfwriaeth y DU ........ 11

3. 6. Negodiadau masnach rhyngwladol ........ 12

**4. Datblygiadau yng Nghymru .................................................. 14**

4. 1. Bil Marchnad Fewnol y DU ................................................................ 14

4. 2. Negodiadau'r UE ................................................................................ 14

4. 3. Negodiadau masnach rhyngwladol ........................................................ 15

4. 4. Parodrwydd ........................................................................................ 16

4. 5. Deddfwriaeth ...................................................................................... 18

4. 6. Cyllid .................................................................................................. 18

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Crynodeb o'r datblygiadau

Mae'r **negodiadau ar ddyfodol y berthynas rhwng y DU a'r UE** yn parhau yr wythnos hon ym Mrwsel yn dilyn mabwysiadu trefniadau newydd ar 21 Hydref. Mae'r trefniadau newydd yn cynnwys negodiadau dyddiol, am yn ail rhwng Llundain a Brwsel, gyda thestun drafft cyffredin yn cael ei ddatblygu. Yn ogystal, mae'r Prif Weinidog a Llywydd Comisiwn yr UE, Ursula von der Leyen, wedi ymrwymo i gadw cysylltiad agos tra mae'r negodiadau'n parhau. Er bod Llywydd Comisiwn yr UE wedi datgan bod gwahaniaethau mawr yn parhau (o ran cae chwarae gwastad, pysgodfeydd a llywodraethu), dywedodd y Prif Weinidog fod amlinelliad bras [o gytundeb] yn eithaf clir a bod bargen yno i'w gwneud. Mae Prif Negodwyr y DU a'r UE yn ategu'r teimlad hwn yn eu datganiadau diweddaraf. Awgryma adroddiadau y gall arweinwyr yr UE ddefnyddio cyfarfod a drefnwyd o Gyngor yr UE ar 19 Tachwedd, gyda'r bwriad o drafod y pandemig coronafeirws, i gymeradwyo cytundeb. Fodd bynnag, nid yw'r DU wedi cydnabod hyn. Yn y cyfamser, mae arweinwyr Senedd Ewrop, y mae angen eu caniatâd i gadarnhau cytundeb, yn parhau'n gadarn na fyddant yn derbyn cyfaddawd ar faterion allweddol.

**Ar lefel y DU**, pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi yn erbyn y Llywodraeth i ddileu Rhan 5 o Fil y Farchnad Fewnol ar y Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Cyflwynodd Llywodraeth y DU rai gwelliannau i'r Bil ar gyfer y cyfnod adrodd. Dywedodd Ysgrifennydd Cyfansoddiad Llywodraeth yr Alban, Michael Russell, mai Bil y Farchnad Fewnol oherwydd amgylchiadau (per force) yw diwedd y rhaglen fframweithiau cyffredin. Parhaodd y gwaith o graffu ar fframweithiau cyffredin. Adroddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Sefydliad dros Lywodraethu ar barodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, gan godi pryderon penodol am barodrwydd porthladdoedd a ffiniau a gweithredu Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Parhaodd deddfwriaeth ar gyfer diwedd y cyfnod pontio drwy Senedd y DU, gyda Bil Gwasanaethau Ariannol newydd yn cael ei gyflwyno a'r Biliau Amaethyddiaeth a Mewnfudo yn dod yn gyfraith. Gosodwyd cytundeb y DU-Japan yn Senedd y DU a pharhaodd Llywodraeth y DU i negodi parhad masnach. Cyn etholiad yr Unol Daleithiau, dywedodd Llywodraeth y DU ei bod wedi cyrraedd camau datblygedig y negodiadau ar gyfer y rhan fwyaf o benodau cytundeb rhwng y DU a'r Unol Daleithiau. Mae darpar-Lywydd yr Unol Daleithiau wedi dweud y byddai unrhyw gytundeb yn dibynnu ar barch at Gytundeb Gwener y Groglith.

**Yng Nghymru,** Ysgrifennodd cadeiryddion tri o bwyllgorau'r Senedd at bwyllgorau Seneddol y DU i godi pryderon am Fil Marchnad Fewnol y DU. Galwodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd ar Lywodraeth y DU i cael yr hyblygrwydd sydd ei angen i ddod i gytundeb. Ar ôl derbyn cyfrifoldeb am bolisi masnach rhyngwladol, croesawodd y Gweinidog gytundeb masnach y DU-Japan a dywedodd y byddai manteision ond hefyd risgiau i gytundebau â'r Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Diwedd Pontio, yn nodi pum maes blaenoriaeth strategol ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Bu'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn arolygu parodrwydd busnesau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ddarparu manylion y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

# 2. Datblygiadau'r DU-UE

## 2.1. Cytuno ar drefniadau negodi newydd

Yn ystod galwad ffôn ar 21 Hydref, cytunodd y ddau Brif Negodydd y **bydd y trafodaethau'n parhau** yn Llundain a Brwsel am yn ail, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Cytunwyd hefyd ar **egwyddorion trefnu** newydd ar gyfer y negodiadau o hyn ymlaen, sy'n darparu ar gyfer y canlynol:

- Bydd negodiadau dwys yn cael eu cynnal yn ddyddiol (gan gynnwys y penwythnosau) rhwng yr **11 bwrdd negodi** ar yr un pryd.
- Bydd y negodiadau hyn yn seiliedig ar destunau cyfreithiol y naill ochr a'r llall wrth geisio dod o hyd i ddull gweithredu cyffredin, oni chanfyddir dull gweithredu mwy priodol.
- Dylai'r prif negodwyr ym mhob maes ddarllen y ddau destun cyfreithiol er mwyn canfod pwyntiau cydgyfeiriant, y gellir eu cyflwyno yn y ffordd fwyaf priodol (yr enghraifft a roddir yw defnyddio tablau neu destunau cyfunol).
- Sefydlir ysgrifenyddiaeth fach ar y cyd i gynnal a rheoli meistr-destun wedi'i gydgrynhoi.
- I gyd-fynd â'r broses hon, dylid cynnal trafodaethau ffrwd gwaith ar faterion gwleidyddol, gan gynnwys y meysydd mwyaf heriol (y meysydd a restrir yw pysgodfeydd, sicrhau cae chwarae gwastad a llywodraethu, ynni a nwyddau/gwasanaethau).
- Dylai'r Prif Negodwyr neu'r Dirprwy Brif Negodwyr gwrdd yn ddyddiol mewn fformat cyfyngedig. Dylai'r grŵp hwn ystyried cynnydd cyffredinol y trafodaethau, ystyried materion a uwchgyfeirir o ffrydiau gwaith y byrddau trafod, rhoi cyfarwyddyd i'r arweinwyr ffrwd gwaith, ac ymdrin â'r materion gwleidyddol mwyaf sensitif yn y trafodaethau.
- Deellir na fydd unrhyw beth wedi'i gytuno nes y ceir 'cytundeb cyffredinol terfynol'.

## 2.2. Prif Negodwyr: datganiadau diweddaraf

### Yr UE

Cyn y trafodaethau ym Mrwsel ar 16 Tachwedd, cyhoeddodd **Prif Negodydd yr UE, Michel Barnier,** neges drydar yn datgan bod yr UE yn parhau i fod yn benderfynol, amyneddgar, parchus a'r modd y mae'r UE am i gydweithrediad yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE fod yn agored ond yn deg ym mhob maes.

Ar 9 Tachwedd, **roedd Mr Barnier wedi trydar** bod 3 allwedd i ddatgloi bargen:

> Rhif 1: Parchu ymreolaeth yr UE a sofraniaeth y DU, gyda dulliau llywodraethu a gorfodi effeithiol rhwng partneriaid rhyngwladol;
>
> Rhif 2: Gwarantau cadarn o fasnach a chystadlu rhydd a theg yn seiliedig ar safonau uchel a rennir, gan esblygu'n gydlynol dros amser;
>
> Rhif 3: Mynediad sefydlog a dwyochrog i farchnadoedd a chyfleoedd pysgota er budd y ddwy ochr.

Roedd wedi **trydar yn flaenorol** bod yn rhaid i gytundeb hefyd barchu buddiannau a gwerthoedd yr UE a'i 27 Aelod-wladwriaeth.

Rhoddodd Mr Barnier y wybodaeth ddiweddaraf i Senedd Ewrop ac Aelod-wladwriaethau'r UE27 am y negodiadau ar 4 Tachwedd. Er na wnaed unrhyw ddatganiadau cyhoeddus, **cyflwynodd Bloomberg grynodeb** o sylwadau Mr Barnier i'r grŵp, a oedd yn awgrymu nad yw'r DU yn barod i gydweithredu ar y maes chwarae gwastad, nid yw'r UE yn barod i negodi'n flynyddol dros bysgodfeydd a bod cynnydd wedi'i wneud mewn meysydd eraill, gan gynnwys cydweithredu o ran yr heddlu a chydweithrediad barnwrol, sydd wedi'u hymgorffori mewn testunau cyfreithiol.

### Y DU

Ar 15 Tachwedd, **anfonodd Prif Negodydd y DU, yr Arglwydd David Frost, neges drydar** mai:

> The only [agreement] that's possible is one that is compatible with our sovereignty and takes back control of our laws, our trade, and our waters. That has been our consistent position from the start and I will not be changing it.

Dywedodd hefyd y bu cynnydd yn y dyddiau blaenorol a bod testunau cytundeb drafft cyffredin bellach yn bodoli ond gydag elfennau arwyddocaol heb eu cytuno eto. Ar 4 Tachwedd, roedd **wedi cytuno â** Mr Barnier, er bod cynnydd wedi'i wneud, bod gwahaniaethau mawr yn parhau o ran rhai materion craidd.

## 2.3. Cyfarfodydd rhwng y Prif Weinidog a Llywydd Comisiwn yr UE

Ar 7 Tachwedd, siaradodd y Prif Weinidog a Llywydd Comisiwn yr UE, Ursula von der Leyen, eto yn dilyn ymrwymiad cynt i barhau i gadw mewn cysylltiad rheolaidd. Yn dilyn y cyfarfod, mae **Llywydd y Comisiwn wedi trydar** bod:

> Some progress has been made, but large differences remain especially on level playing field and fisheries. Our teams will continue working

> hard next week. We will remain in close contact in the next days.

Eglurodd y Prif Weinidog i ohebwyr, **gan gynnwys Reuters**, ar 8 Tachwedd ei fod wedi dweud wrth Lywydd y Comisiwn bod cytundeb:

> [T]here to be done, the broad outlines are pretty clear. We just need to get on and do it if we can. And I said that to Ursula Von der Leyen just yesterday. And she totally agrees with me.

**Esboniodd Llywydd y Comisiwn yn flaenorol** ei bod mewn cysylltiad bob awr â Phrif Negodydd yr UE, Michel Barnier, ac er bod mwy o gynnydd yn ddymunol o ran meysydd 'pwysicaf' y cae chwarae gwastad a physgodfeydd, mae 11 maes arall y mae'n rhaid eu trafod tan y diwedd.

Roedd y **datganiad i'r wasg gan y Prif Weinidog**, a oedd yn cyd-fynd â hyn yn cadarnhau bod gwahaniaeth sylweddol yn parhau, gan gynnwys ar y cae chwarae gwastad a physgodfeydd.

## 2.4. Senedd Ewrop: datganiadau diweddaraf

Ar 4 Tachwedd, **cyhoeddodd Grŵp Cydgysylltu'r DU ar Senedd Ewrop ddatganiad** yn dilyn ei drafodaeth ddiweddaraf gyda Phrif Negodydd yr UE, Michel Barnier. Roedd yn datgan:

> Today, we met Michel Barnier and noted with deep concern that the list of fundamental divergences remains long.
>
> While the EU chief negotiator clearly stated that the EU wants to conclude an agreement, Parliament underlines that we will not give up our position on key issues in the area of level playing field, governance and fisheries. The EU needs to protect its long-term political interests.
>
> This is not merely a procedural matter, but, above all, a democratic responsibility (...) We are well aware that the negotiations have reached a critical juncture. A completion of a deal clearly requires additional time. We will take our democratic responsibility seriously.

Dywedodd Cadeirydd **Pwyllgor Masnach Ryngwladol (INTA) Senedd Ewrop, Bernd Lange** hefyd:

> Even if we are ready to negotiate for a deal until the end, it is also clear that, despite time pressure, we will not accept compromises on key issues or the ratification process. With the European Parliament there will be no waving through at the expense of democratic control.
>
> It's a shame that the British side is only now negotiating seriously and constructively. How much unnecessary time was wasted by tactical games by Boris Johnson. This endgame is completely home-made and could have been avoided.

Mae angen cydsyniad Senedd Ewrop i gymeradwyo cytundeb rhwng y DU a’r UE.

## 2.5. 2020: dyddiadau allweddol sy’n weddill

Yn ogystal â’r negodiadau sy’n mynd rhagddynt, gellid pleidleisio ar gytundeb neu gytundebau rhwng y DU a’r UE ar y dyddiadau canlynol a drefnwyd:

**19 Tachwedd 2019: Cyfarfod Cyngor yr UE** (i drafod y pandemig coronafeirws)

**23-26 Tachwedd: Sesiwn Senedd Ewrop** (byddai angen cyfarfod ychwanegol o Gyngor yr UE cyn y gall y Senedd bleidleisio, os nad yw Cyngor yr UE yn cymeradwyo cytundeb yn ystod ei gyfarfod ar 19 Tachwedd)

**10-11 Rhagfyr: Cyfarfod Cyngor yr UE**

**14-17 Rhagfyr: Sesiwn Senedd Ewrop**

**31 Rhagfyr:** Diwedd y cyfnod pontio (11.00pm GMT)

Yn y gorffennol, mae sefydliadau’r UE wedi dangos eu bod yn fodlon cynnal cyfarfodydd ychwanegol ar gyfer pleidleisiau sy’n ymwneud â Brexit. Nid oes unrhyw gyfarfodydd ychwanegol wedi’u cyhoeddi ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, ond mae ffynonellau yn Senedd Ewrop wedi awgrymu y gellid trefnu sesiwn ychwanegol ar gyfer 28 Rhagfyr, **yn ôl y Guardian.**

At hynny, mae’r deddfwrfeydd sy’n ymwneud â phroses gadarnhau cytundebau’r DU a’r UE fel arfer yn cael eu toriad dros gyfnod y Nadolig. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw **gyfarfodydd Cyngor yr UE** wedi’u trefnu y tu hwnt i 17 Rhagfyr a dim gweithgarwch **Senedd Ewrop** y tu hwnt i 23 Rhagfyr. Nid yw toriad y Nadolig wedi **ei gadarnhau eto** gyfer Senedd y DU. Mae toriad y Nadolig yn y deddfwrfeydd datganoledig fel a ganlyn: **Y Senedd** (21 Rhagfyr – 10 Ionawr 2021), **Senedd yr Alban** (24 Rhagfyr – 8 Ionawr 2021) a Chynulliad Gogledd Iwerddon (18 Rhagfyr – i’w gadarnhau).

Yn amodol ar gynnwys unrhyw gytundeb(au), efallai y bydd angen cadarnhad domestig ym mhob Aelod-wladwriaeth o’r UE27 hefyd.

## 2.6. Gweithredu’r Cytundeb Ymadael

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y **Pwyllgor Arbenigol ar y Darpariaethau Gwahanu Eraill** ar 30 Hydref. Y DU a gynhaliodd y cyfarfod rhithwir, pan drafododd swyddogion y DU a’r UE weithredu Rhan Tri y Cytundeb Ymadael ar

Ddarpariaethau Gwahanu. Bydd y rhan fwyaf o Ran Tri yn gymwys ar ddiwedd y cyfnod pontio. Yn ôl y datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd ar ôl y cyfarfod, mae Rhan Tri yn sicrhau bod trefniadau presennol yn dirwyn i ben yn drefnus.

Mae Rhan Tri yn cwmpasu ystod eang o feysydd lle mae angen gwahanu'r DU a'r UE a gwahanu'r DU ac Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys lleoli a dosbarthu nwyddau a roddwyd ar y farchnad cyn diwedd y cyfnod pontio, gweithdrefnau tollau parhaus, materion TAW/tollau cartref, eiddo deallusol, yr heddlu a chydweithrediad barnwrol mewn materion troseddol, sifil a masnachol, prosesu data a gwybodaeth, caffael cyhoeddus parhaus, gweithdrefnau cydweithredu gweinyddol ac eraill.

Ceir crynodeb o gyfarfodydd diweddaraf Cyd-bwyllgor a Phwyllgorau Arbenigol y DU a'r UE yn yr **argraffiad blaenorol o'r adroddiad hwn**, a gyhoeddwyd ar 22 Hydref.

## Lansio gweithdrefnau newydd tor rheolau yn erbyn y DU

Lansiodd yr UE **bedwar achos o dor-rheolau** yn erbyn y DU ym mis Hydref, yn y meysydd canlynol:

1. Cytuniadau Buddsoddi Dwyochrog (BITs): am fethiant y DU i ddileu Cytuniadau Buddsoddi Dwyochrog y DU ac Aelod-Wladwriaethau o'i gorchymyn cyfreithiol, cyhoeddodd Comisiwn yr UE Farn Resymedig (y cam nesaf yw atgyfeiriad i'r Llys Cyfiawnder (CJEU)). Mae'r DU wedi cael dau fis i ymateb.
2. Hawliau dinasyddion: am fethiant y DU i sicrhau yswiriant salwch cynhwysfawr i ddinasyddion yr UE, mae Comisiwn yr UE wedi cyhoeddi rhybudd ffurfiol ychwanegol.
3. Iechyd planhigion: am fethiant y DU i gydymffurfio â rheolau plâu planhigion, mae Comisiwn yr UE wedi cyhoeddi rhybudd ffurfiol.
4. Trethiant: am fethiant y DU i gydymffurfio â rheolau masnach TAW yr UE ar gyfer offerynnau ariannol, mae Comisiwn yr UE wedi cyhoeddi rhybudd ffurfiol.

Ceir rhagor o wybodaeth am drafodion tor-rheolau yr UE, sy'n berthnasol i'r DU yn ystod y cyfnod pontio yn rhinwedd y Cytundeb Ymadael, ar **dudalennau gwe Comisiwn yr UE.**

# 3. Datblygiadau ar lefel y DU

## 3.1. Bil Marchnad Fewnol y DU

Cwblhaodd **Bil Marchnad Fewnol y DU** y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Tachwedd. Ar ddiwrnod olaf y cyfnod Pwyllgor, pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi yn erbyn y Llywodraeth i ddileu Rhan 5 ar Brotocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon o'r Bil: o 433-165 i ddileu cymalau 42 a 43 ac o 407-148 i ddileu cymalau 44 i 47.

Mae'r cyfnod adrodd wedi'i drefnu ar gyfer 18 i 25 Tachwedd. Pleidleisiodd **Tŷ'r Cyffredin yn erbyn y Llywodraeth** ar 18 Tachwedd i gydnabod y rhaglen fframweithiau cyffredin yn y Bil. **Cyflwynodd y Llywodraeth rai gwelliannau i'r Bil** cyn y cyfnod adrodd yn enw'r Arglwydd Callanan. Mae'r rhain yn cynnwys ychwanegu gofynion i Lywodraeth y DU ymgynghori ac adrodd ar arfer ei phwerau yn y Bil.

Ar 16 Tachwedd, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyfres o ddatganiadau polisi** i esbonio'r bwriad y tu ôl i ddarpariaethau Bil Marchnad Fewnol y DU, wrth iddo fynd drwy'r Senedd'.

## 3.2. Fframweithiau Cyffredin

Gosododd Llywodraeth y DU y fframwaith cyffredin dros dro ar gyfer **labelu, cyfansoddiad a safonau sy'n gysylltiedig â maeth** fel Papur Gorchymyn ar 9 Hydref. Darparwyd y fframwaith i'r Senedd i graffu arno ar yr un pryd.

**Cadarnhaodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 5 Tachwedd bod y llywodraethau'n bwriadu i bob fframwaith ddod i rym ar ffurf dros dro o fis Ionawr 2021.

**Rhoddodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd ac Ysgrifennydd Cyfansoddiad Llywodraeth yr Alban Michael Russell MSP dystiolaeth** i Bwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin ar 10 Tachwedd. Pan ofynnwyd iddo ai Bil y Farchnad Fewnol oedd diwedd fframweithiau cyffredin, dywedodd Michael Russell:

> Per force, it is. It is a great shame, because of the amount of work that has been done. [...] it is like a very large tree that will grow up and nothing will grow in its shade.

Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd:

To all intents and purposes it removes any incentive for the UK Government to continue engaging with the common frameworks. There would be a practical set of consequences if the Bill were to be passed in the form in which it was introduced.

## 3.3. Cysylltiadau rhynglywodraethol

**Gwnaeth Canghellor Dugiaeth Lancastr ddatganiad** ar gysylltiadau rhynglywodraethol ar 10 Tachwedd, gan gyhoeddi creu **tudalen cysylltiadau rhynglywodraethol** ar GOV.UK a chyhoeddi adroddiadau chwarterol a blynyddol. Dywedodd fod hyn yn adlewyrchu dull Llywodraeth Cymru a'r Alban o adrodd ar gysylltiadau rhynglywodraethol. Dywedodd hefyd fod yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol yn parhau a bod Llywodraeth y DU yn parhau'n ymrwymedig i gwblhau cynnyrch yn gyflym.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **hadroddiad blynyddol ar gysylltiadau rhynglywodraethol** ar gyfer y Senedd ar 26 Hydref, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

## 3.4. Parodrwydd

**Adroddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol** ar baroddrwydd y DU ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ar 6 Tachwedd, gan ganolbwyntio ar barodrwydd porthladdoedd a ffiniau ar gyfer cyflwyno gwiriadau ym mis Ionawr a mis Gorffennaf 2021. **Adroddodd yr Institute for Government hefyd** ar barodrwydd y Llywodraeth yn fwy cyffredinol ar 3 Tachwedd. Nododd y ddau fod parodrwydd porthladdoedd a ffiniau a Phrotocol Gogledd Iwerddon yn heriau allweddol.

### Porthladdoedd a ffiniau

Canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei bod yn annhebygol iawn y byddai pob masnachwr, diwydiant a thrydydd parti (gan gynnwys teithwyr) yn barod am ddiwedd y cyfnod pontio ym mis Ionawr. Canfu fod gan adrannau lefel resymol o hyder o ran gallu darparu i weithredu'r hyn sy'n ofynnol erbyn 1 Ionawr, ond nododd hefyd nifer o feysydd allweddol a fyddai'n her i'w cyflawni i'r llywodraeth:

- galluogi masnachwyr i symud nwyddau o dan gludiant drwy'r Gwasanaeth Symud Cerbydau Nwyddau a sicrhau y gallai masnachwyr a gweithredwyr porthladdoedd ei ddefnyddio;
- sefydlu'r saith safle mewndirol sydd eu hangen i hwyluso symudiadau tramwy, yn ogystal â safleoedd porthladdoedd;

- galluogi porthladdoedd a thrydydd partïon i integreiddio eu systemau â systemau newydd neu rai sydd wedi newid gan y llywodraeth;
- lliniaru'r effaith sy'n deillio o'r ffaith nad yw masnachwyr a thrydydd partïon yn barod ar gyfer archwiliadau'r UE a lleihau aflonyddwch, yn enwedig ar groesfannau byrion;
- sicrhau bod y farchnad gyswllt tollau yn gallu ateb y galw am gymorth gan fasnachwyr;
- paratoi cynlluniau sifil wrth gefn er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cyflenwad o nwyddau a meddyginiaethau critigol, yn enwedig yng nghyd-destun y pandemig coronafeirws.

Dywedodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod ansicrwydd ynghylch y seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i'r DU weithredu gwiriadau ffiniau llawn erbyn mis Gorffennaf 2021. Dywedodd y byddai angen i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi wneud newidiadau pellach sylweddol i'w systemau tollau i ymdrin â chynnydd yn nifer y datganiadau tollau.

## Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon

Dywedodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod gweithredu'r Protocol erbyn 1 Ionawr 2021 yn her sylweddol. Dywedodd fod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn credu y gallai gyflawni'r rhan fwyaf o'r elfennau gofynnol ond y byddai dod â'r elfennau at ei gilydd yn risg uchel iawn. Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon (DAERA) sy'n gyfrifol am sefydlu systemau ar gyfer archwiliadau i sicrhau iechyd anifeiliaid a phlanhigion rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae DAERA wedi dweud na fydd yn gallu cwblhau'r paratoadau erbyn 1 Ionawr oherwydd ansicrwydd a'r amserlen dynn ac mae'n archwilio opsiynau wrth gefn.

Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd fod ansicrwydd parhaus ynghylch y gofynion ar gyfer symud nwyddau o dan y Protocol. Dywedodd y byddai'n 'heriol' i Lywodraeth y DU sefydlu'r Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr mewn pryd.

Ar 9 Tachwedd, **adroddodd RTÉ** bod y Prif Weinidog a dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon wedi ysgrifennu at Is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd Maroš Šefčovič, cyd-gadeirydd Cyd-bwyllgor y DU a'r UE, i godi'r bygythiad gwirioneddol i barhad y cyflenwad presennol o fwyd a chynhyrchion eraill i'w marchnad oherwydd archwiliadau sicrhau iechyd anifeiliaid a phlanhigion ym mhorthladdoedd Gogledd Iwerddon ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

## 3.5. Deddfwriaeth y DU

### Y Bil Amaethyddiaeth

Rhoddwyd Gydsyniad Brenhinol i'r **Bil Amaethyddiaeth** ar 11 Tachwedd. Mewn ymateb i welliannau a wnaed gan Dy'r Arglwyddi, cafodd y Bil ei ddiwygio gan Lywodraeth y DU i'w gwneud yn ofynnol, cyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gosod cytundeb masnach rydd, sy'n cynnwys mesurau sy'n gymwys i fasnachu mewn cynnyrch amaethyddol, gerbon y Senedd, rhaid iddo hefyd osod adroddiad yn nodi a yw'r cytundeb yn gyson â lefelau diogelwch statudol y DU mewn perthynas â bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion; llesiant anifeiliaid; a'r amgylchedd, a sut hynny. Nid yw hyn yn berthnasol i'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol nac i gytundebau treigl.

### Y Bil Masnach

Cwblhaodd y **Bil Masnach** ei gyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 15 Hydref. Nid yw'r dyddiad ar gyfer y cyfnod adrodd wedi ei gyhoeddi eto. Yn ystod hynt y Bil Amaethyddol, ymrwymodd Llywodraeth y DU i sefydlu'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth ar sail statudol. Dywedodd y byddai'n gwneud hyn drwy ddiwygio'r Bil Masnach.

### Y Bil Pysgodfeydd

Yn dilyn trydydd darlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin, mae'r **Bil bellach mewn ping pong** yn Nhŷ'r Arglwyddi.

### Bil yr Amgylchedd

Mae'r **cyfnod Pwyllgor yn parhau** yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i drefnu ar gyfer 2 Tachwedd i 1 Rhagfyr.

### Biliau Eraill

Rhoddwyd Gydsyniad Brenhinol i'r **Bil Mewnfudo** ar 11 Tachwedd. Mewn ymateb i welliannau a wnaed gan Dy'r Arglwyddi, mae'r **Llywodraeth wedi diwygio'r Bil** i'w gwneud yn ofynnol, i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu'r ffyrdd y gall hawlwyr amddiffyn [pobl sy'n ceisio lloches] sydd mewn aelod-wladwriaeth ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig yn gyfreithlon. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ddatganiad o newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo** ar gyfer ar ôl diwedd y cyfnod pontio ar 22 Hydref.

Cafodd y Bil Cyfraith Ryngwladol Breifat (Bil Gweithredu Cytundebau) ei basio gan Dŷ'r Cyffredin. Mae'n dechrau **ping pong yn Nhŷ'r Arglwyddi** ar 19 Tachwedd.

Mae Tŷ'r Arglwyddi yn parhau i drafod y **Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol** yn y cyfnod Pwyllgor.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y **Bil Gwasanaethau Ariannol** ar 21 Hydref. **Mae Llywodraeth y DU wedi dweud** mai'r Bil yw'r cam cyntaf tuag at lunio fframwaith rheoleiddio ar gyfer sector gwasanaethau ariannol y DU y tu allan i'r UE. Mae'r Bil bellach yn cael ei ystyried yn ystod y cyfnod Pwyllgor. Disgwylir i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 1 Rhagfyr.

## 3.6. Negodiadau masnach rhyngwladol

### Cytundeb rhwng y DU a Japan

Ar 23 Hydref, llofnodwyd Cytundeb Partneriaeth Economaidd Cynhwysfawr (CEPA) rhwng y DU a Japan. Cafodd testun y cytundeb ei **osod yn y Senedd** ar yr un diwrnod, gan gychwyn y broses gadarnhau o dan y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu (CRaG). Mae **Pwyllgor Masnach Ryngwladol Ty'r Cyffredin wedi cymryd tystiolaeth** ar y cytundeb.

### Negodiadau rhwng y DU ac Unol Daleithiau America

Mae **Joe Biden, darpar-Lywydd yr Unol Daleithiau, wedi dweud** y byddai unrhyw gytundeb masnach â'r DU yn y dyfodol yn dibynnu ar barch at Gytundeb Gwener y Groglith ac atal ffin galed rhag dychwelyd.

Mewn datganiad cyn yr etholiad ar 2 Tachwedd, dywedodd **Yr Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol Liz Truss** bod negodwyr y DU a'r Unol Daleithiau wedi cyrraedd camau pell yn y trafodaethau ar gyfer bron pob maes testun a bod cyfran sylweddol o destun cyfreithiol wedi'i gytuno. Dywedodd fod y ddwy ochr wedi cytuno i barhau i siarad ar lefel swyddogol ar ôl yr etholiad a bod y ddwy ochr yn hyderus eu bod ar y trywydd iawn i gael cytundeb cynhwysfawr a fyddai o fantais sylweddol a chydfuddiannol i'w heconomïau.

### Rhaglen Parhâd Negodiadau a Chydgysylltu (y cyfeiriwyd ati'n flaenorol fel Rhaglen Parhad y Cytundeb Masnach)

Ar 11 Tachwedd 2020, mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi 22 o gytundebau masnach rhyngwladol fel rhan o'r rhaglen Parhâd Negodiadau a Chydgysylltu

(CNC). Yn ôl **Llywodraeth Norwy,** mae cytundeb dros dro, cyfyngedig arall ar fasnach mewn nwyddau â Norwy wedi'i lofnodi hefyd. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i adlewyrchu eto yn **rhestr Llywodraeth y DU** o'r cynnydd a wnaed o ran treigl ei chytundebau masnach nad ydynt yn rhai â'r UE.

O dan y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu (CRaG), rhaid gosod y rhan fwyaf o gytundebau rhyngwladol gerbron Senedd y DU am 21 diwrnod eistedd cyn y gellir eu cadarnhau. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r rheol 21 diwrnod hon yn Neddf CRaG y gallai Gweinidogion y DU geisio dibynnu arnynt. Oherwydd y nifer cyfyngedig o ddiwrnodau eistedd sydd bellach ar ôl, mae posibilrwydd na fydd cytundebau nad ydynt wedi'u cadarnhau eto yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio. Fodd bynnag, gall partïon i gytundebau masnach gytuno i gymhwyso eu darpariaethau dros dro, yn rhannol neu'n llawn, hyd nes y gellir eu cadarnhau'n ddiweddarach.

# 4. Datblygiadau yng Nghymru

## 4.1. Bil Marchnad Fewnol y DU

Ar 13 Tachwedd, ysgrifennodd **Cadeiryddion Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor y Cyllid y Senedd** at bwyllgorau seneddol y DU i godi pryderon am Fil Marchnad Fewnol y DU. Roedd hyn yn dilyn **sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ar 2 Tachwedd. Yn y llythyr, dywedodd y Cadeiryddion y byddai'r terfyn y byddai'r Bil yn ei greu ar gyfer deddfwriaeth a wneir wrth arfer cymhwysedd datganoledig yn effeithio'n fawr ar allu'r Senedd i wneud cyfreithiau cydlynol a hygyrch sy'n diwallu anghenion a dyheadau dinasyddion Cymru. Dywedasant:

> Ry'n ni'n galw ar aelodau o'r ddau Dŷ yn San Steffan i bwyso ar Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r diffygion sylweddol gan eu bod nhw'n ymwneud â datganoli.
>
> Ni ellir anwybyddu'r Senedd, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn y broses hon. Os anwybyddir y llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig, gallai hynny fod yn niweidiol iawn i'r DU gyfan."

**Cafodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol dystiolaeth hefyd** gan Weinidog Gwladol Swyddfa'r Cabinet, yr Arglwydd True, ar 12 Tachwedd.

## 4.2. Negodiadau'r UE

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chynllun Diwedd Pontio** ar 11 Tachwedd.. Mae hwn yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio dylanwadu ar negodiadau'r DU â'r UE. Mae'n nodi'n benodol bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i negodi i Gymru gael mynediad i raglenni'r UE fel Erasmus+ a Horizon Europe ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 5 Tachwedd, , **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd:**

> It is the UK Government's responsibility to look after the economic interests of the UK, so we call on them to have the flexibility required to reach a deal. We shouldn't pretend that the kind of deal available at this point is the kind of deal we would regard as adequate, and it certainly isn't the kind of deal we would regard as necessary to protect Wales's interests, but it's incumbent on the UK Government now to seek a deal.

Cyfarfu Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Negodiadau'r UE ar 29 Hydref. Mewn

datganiad ar ôl y cyfarfod, **dywedodd y Gweinidog** bod y cyfarfod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran negodiadau. Dywedodd y canlynol:

> Rhoddodd hyn gyfle imi bwyso ar Lywodraeth y DU i ymgysylltu â ni i drafod unrhyw gyfaddawdu posibl yng nghamau olaf y negodiadau. Pwysais hefyd am wybodaeth am faterion penodol, gan gynnwys rhwystrau technegol i fasnach a rheolau tarddiad, trefniadau cilyddol ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a gwasanaethau, yn arbennig gwasanaethau sy'n gysylltiedig â nwyddau. Pwysleisiais unwaith eto pa mor hanfodol ydoedd i Lywodraeth y DU, yn ogystal â'r UE, ddangos digon o hyblygrwydd er mwyn sicrhau cytundeb..

**Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad hefyd ar 20 Hydref** yn cadarnhau ei fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU cyn cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Hydref yn galw ar Lywodraeth y DU i flaenoriaethu dod i gytundeb a lleihau rhwystrau i fasnachu.

## 4.3. Negodiadau masnach rhyngwladol

Rhoddodd **Y Gweinidog Pontio Ewropeaidd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau** am ddatblygiadau negodiadau rhyngwladol ar 3 Tachwedd, ar ôl cymryd cyfrifoldeb am bolisi masnach rhyngwladol Llywodraeth Cymru. Croesawodd y Gweinidog lofnodi cytundeb y DU a Japan. Dywedodd y byddai manteision ond hefyd risgiau i gytundeb masnach â'r Unol Daleithiau, yn ogystal â gydag Awstralia a Seland Newydd. Dywedodd ei fod yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i lofnodi concordat ar gynnwys Llywodraeth Cymru mewn negodidau masnach.

### Cytundeb rhwng y DU a Japan

Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog ar 27 Hydref gyda chyfres o gwestiynau yn gofyn am ei ymateb i gyhoeddi a chynnwys y cytundeb a'i effaith ar Gymru. Ymatebodd y Prif Weinidog ar 17 Tachwedd. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi dadansoddiad o effaith economaidd y cytundeb ar Gymru.

### Grwpiau cynghori

Ysgrifennodd cyn-Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol at Lywodraeth y DU ar 23 Medi i geisio mwy o gynrychiolaeth o Gymru ar grwpiau cynghori Llywodraeth y DU ar fasnach. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 5 Tachwedd, **dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd** fod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y byddai ystod ehangach o randdeiliaid yn y grŵp cynghori strategol ar fasnach.

Gofynnodd y cyn-Weinidog Cysylltiadau Rhyngwladol hefyd am sicrwydd na fyddai'r Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth yn gwneud argymhellion ar gyfer Lloegr yn unig ac mewn meysydd a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU. Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd wrth y Pwyllgor nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael sicrwydd o'r fath ond y byddai'n parhau i ofyn amdano.

**Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar Bolisi Masnach** sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â pholisi masnach. Cafodd cofnodion y cyfarfod cyntaf eu cyhoeddi ar 11 Tachwedd.

## 4.4. Parodrwydd

### Cynllun Diwedd Pontio

Cafodd **Cynllun Diwedd Pontio** Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi ar 11 Tachwedd. Mae'r cynllun yn nodi pum maes blaenoriaeth strategol ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, yn amlinellu'r risgiau, y camau gweithredu sydd eu hangen, y sefyllfa ddiweddaraf, a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Y meysydd blaenoriaeth yw:

**1.** Cyflenwi nwyddau critigol

Mae'r cynllun yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU, cyrff cyhoeddus a diwydiant ar faterion sy'n ymwneud â pharhau i gyflenwi nwyddau critigol fel bwydydd a meddyginiaethau. Ar gyfer cyflenwadau meddygol, mae llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn gweithio i bennu union natur trefniadau parhad cyflenwadau wrth gefn yn y DU.

**2.** Parodrwydd busnesau a chymorth

Mae'r Cynllun Diwedd Pontio yn cyfeirio at Borth Cyfnod Pontio'r UE gan Busnes Cymru a gwefan Paratoi Cymru fel ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau i fusnesau, a'r Gronfa Cadernid Economaidd a Banc Datblygu Cymru fel ffynonellau cymorth ariannol. Mae'r cynllun hefyd yn nodi bod y DU yn gadael y cyfnod pontio heb gytundeb masnach wedi'i negodi gyda'r UE, mae'n bosibl y byddai angen 'Cynllun Ymyrraeth Argyfwng' i helpu i liniaru'r effaith ar y sector cig coch a physgodfeydd. Mae'n nodi ymhellach ei bod yn bosibl y gallai cynllun o'r fath fod ar raddfa sylweddol ac y byddai angen darparu cydweithrediad ledled y DU a chymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru i'w gyflawni.

Mae'r cynllun yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu parodrwydd

busnesau yng Nghymru ar gyfer y posibilrwydd na fydd cytundeb digonolrwydd data gyda'r UE yn cael ei wneud. Mae llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig wedi datblygu cynllun wrth gefn ar gyfer y sector defaid, ond nid yw'r dyluniad gweithredol wedi'i gwblhau eto. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Lywodraeth y DU am gynlluniau cymorth ar gyfer y sectorau cig coch a physgodfeydd a gall gyflwyno cynlluniau'n unochrog.

**3.** Gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau i gefnogi cynllun statws preswylydd sefydlog Llywodraeth y DU ar gyfer yr UE. Bydd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar gynllunio wrth gefn ar gyfer tarfu ar drafnidiaeth.

**4.** Gweithgareddau gweithredol

Mae'r cynllun yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi mesurau lliniaru ar gyfer tarfu ar draffig sy'n deillio o wiriadau ffiniau newydd o 1 Ionawr ymlaen. Bydd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gysylltu cynlluniau rheoli trafnidiaeth ffyrdd â threfniadau ar ffiniau. Bydd angen i Lywodraeth Cymru oruchwylio'r gwaith o adeiladu dau safle mewndirol erbyn mis Gorffennaf 2021. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fydd yn arwain ar ddarparu'r safle yng Nghaergybi a Llywodraeth Cymru fydd yn arwain ar safle De-orllewin Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio eglurder ynghylch gofynion gweithredol o dan Brotocol Gogledd Iwerddon ar gyfer yr amcangyfrif o 30 y cant o draffig Caergybi fydd yn mynd i Ogledd Iwerddon neu oddi yno.

Mae'r cynllun hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn rheoli dros 70 o brosiectau parodrwydd ym mhortffolio'r amgylchedd, ynni a materion gwledig ac mae'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar opsiynau posibl ar gyfer cynllun i gymryd lle Erasmus+ yn y DU neu i Gymru.

**5.** Adnoddau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru

Mae'r adran olaf yn amlinellu gwaith Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar oblygiadau ariannol diwedd y cyfnod pontio, cyllid rhanbarthol a negodiadau. Mae hefyd yn amlinellu bod Llywodraeth Cymru yn ceisio pennu'r holl swyddogaethau ychwanegol newydd y bydd yn ymgymryd â hwy ar ôl diwedd y cyfnod pontio a sicrhau bod y ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith.

### Arolwg parodrwydd busnes y Pwyllgor

Cynhaliodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol arolwg ar barodrwydd busnesau yng Nghymru rhwng mis Awst a mis Hydref. Canfu'r arolwg nad oedd bron i 76 y cant o ymatebwyr wedi cael gafael ar unrhyw wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i baratoi ar gyfer diwedd y flwyddyn. Nid oedd bron i 53 y cant yn ymwybodol o'r wybodaeth oedd ar gael. Roedd 57 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno bod gwybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol a dywedodd 90 y cant fod angen ei gwella.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd am ganlyniadau'r arolwg ar 5 Tachwedd. Wrth ymateb, **dywedodd y Gweinidog:**

> Os ydych chi'n gofyn am adnoddau sydd yn disgrifio i chi beth yw'r senario ar 1 Ionawr y flwyddyn nesaf, hynny yw dyna beth fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn diffinio fel defnyddiol, wel, wrth gwrs, dŷn ni ddim yn y sefyllfa i allu gwneud hynny.

Ymatebodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd i lythyr y Pwyllgor yn nodi canlyniadau'r arolwg ar 12 Tachwedd. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r un pryderon a bod y Cynllun Diwedd Pontio yn amlinellu sut y byddent yn cael eu lliniaru.

## 4.5. Deddfwriaeth

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi parhau i ystyried is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried **datganiadau ysgrifenedig Llywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 30C** ar gyfer deddfwriaeth y DU mewn meysydd lle mae cymwyseddau wedi'u datganoli o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Dywedodd Llywodraeth Cymru yn ei **Chynllun Diwedd Pontio** ei bod yn disgwyl gwneud tua 20 yn rhagor o offerynnau statudol mewn pryd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

## 4.6. Cyllid

Yn ei **Chynllun Diwedd Pontio**, galwodd Llywodraeth Cymru ar Lywodraeth y DU i egluro cynllun y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r modd y caiff ei dyrannu. Galwodd hefyd ar Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid newydd ar gyfer holl raglenni'r UE a gaiff eu colli yng Nghymru a chyllid ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Mae **Llywodraeth y DU wedi cadarnhau** y bydd manylion y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu cyhoeddi yn dilyn yr adolygiad o wariant. Mae'r adolygiad o wariant wedi'i amserlennu ar gyfer 25 Tachwedd. Mae **Llywodraeth y DU wedi dweud** ei bod yn bwriadu defnyddio'r pwerau cymorth ariannol ym Mil Marchnad Fewnol y DU i weithredu'r gronfa.